Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Tirwedd Cenedlaethol

Clwydian Range and Dee Valley
National Landscape

# Tasgau Gwirfoddoli ar gyfer Tirweddau Cenedlaethol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy (Gogledd)

## Hydref - Rhagfyr 2024

### Uchafbwyntiau'r Haf

**Codi Waliau Sych ar Foel Famau**

Diolch i bawb a ddaeth i'n helpu ni i Godi Waliau Sych ar Foel Famau. Cawsom ddiwrnod gwych yn ailadeiladu tua 15 metr o waliau dan lygad gofalus Colin, sy'n codi waliau'n broffesiynol yn lleol.




**Gwelliannau i Lwybr Troed Moel Findeg**

Cawsom ddiwrnodau gwych ar Foel Findeg dros yr haf yn gwella'r llwybrau troed trwy osod cerrig ar y rhannau a oedd yn troi'n gorsiog ac anodd i gerdded trwyddynt. Gosodwyd mwy na 3 thunnell o gerrig â llaw dros y deuddydd gwirfoddoli.





## Hydref

**Dydd Mawrth 1 Hydref, 10am – 3pm**

**Tacluso maes parcio uchaf Parc Gwledig Loggerheads –** helpwch i dacluso'r maes parcio ychwanegol yn Loggerheads trwy glirio'r glaswellt sydd wedi'i dorri a gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ar y gwrychoedd o gwmpas y maes parcio.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 6266**

**Dydd Mercher 2 Hydref 10am – 3pm**

**Coed Bell –** Cribinio/casglu/llosgi llystyfiant yng Nghoed Bell. Prosiect parhaus i wella'r arddangosfa clychau gleision yn y gwanwyn.

Cyfarfod yn y maes parcio. Cyfeirnod grid - **SJ 08545 83307**

**Dydd Mercher 9 Hydref 10am – 3pm**

**Plygu Gwrychoedd Coed Llangwyfan –** Helpwch i barhau â'r gwaith gwych sydd eisoes wedi'i wneud i blygu'r gwrych ym maes parcio Coed Llangwyfan.

Cyfarfod ym maes parcio Coed Llangwyfan. Cyfeirnod Grid - **SJ 1390 6684**

**Dydd Mawrth 15 Hydref 10am – 3pm**

**Gwaith Cynnal a Chadw Cyffredinol ym Mharc Gwledig Loggerheads –** helpwch i gadw'r parc ar ei orau ar ôl yr haf prysur trwy wneud tasgau cynnal a chadw cyffredinol o gwmpas y parc.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 6266**

**Dydd Mercher 16 Hydref 10am – 3pm**

**Coed Bell –** Cribinio/casglu/llosgi llystyfiant yng Nghoed Bell. Prosiect parhaus i wella'r arddangosfa clychau gleision yn y gwanwyn.

Cyfarfod yn y maes parcio. Cyfeirnod grid - **SJ 08545 83307**

**Dydd Mawrth 22 Hydref 10am – 3pm**

**Prysgoedio Parc Gwledig Loggerheads –** Helpwch i gynnal coetir y SoDdGA trwy wneud gwaith prysgoedio, sgil draddodiadol a ddefnyddir i ymestyn oes y goeden a hybu twf planhigion y ddaear.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 6266**

**Dydd Mercher 23 Hydref 10am – 3pm**

**Cynnal a Chadw Gardd Goed, Coed Moel Famau –** Helpwch i gynnal a chadw'r ardd goed yng Nghoed Moel Famau trwy wneud tasgau fel tocio canghennau isaf, teneuo, gwaith draenio a mwy.

Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau. Cyfeirnod Grid - **SJ 17131 61072**

**Dydd Mercher 30 Hydref 10am – 3pm**

**Rheoli prysgwydd Moel Findeg –** Helpu rhostir yr iseldir i ffynnu trwy dynnu llystyfiant prysglog fel Bedw a Chriafol o'r rhostir.

Cyfarfod ym mhrif gilfan Moel Findeg. Cyfeirnod Grid - **SJ 20564 60795**

**Dydd Mercher 30 Hydref 10am – 3pm**

**Chwarel Nant Yr Ogof –** Cribinio/casglu/symud llystyfiant. Parhau â gwaith i adfer y cynefin hwn sydd o bwysigrwydd mawr i gyflwr ffafriol.

Cyfarfod yn Chwarel Nant Yr Ogof. Cyfeirnod grid - **SJ 06696 80669**

<u>Tachwedd</u>

**Dydd Mawrth 5 Tachwedd 10am – 3pm**

**Tacluso Ymylon Llwybrau ym Mharc Gwledig Loggerheads –** Helpwch i gynnal y rhwydwaith llwybrau o gwmpas y parc trwy ddisodli a thrwsio ymylon llwybrau.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 6266**

**Dydd Mercher 6 Tachwedd 10am – 3pm**

**Coedwig i'r Grugieir, symud conwydd –** Helpwch i gynnal y cynefin rhostir pwysig hwn trwy symud coed conwydd goresgynnol er mwyn cadw'r rhostir ar agor.

Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau. Cyfeirnod Grid - **SJ 17131 61072**

**Dydd Mawrth 12 Tachwedd 10am – 3pm**

**Gwaith Cynnal a Chadw Cyffredinol ym Mharc Gwledig Loggerheads –** Helpwch i gadw'r parc ar ei orau ar ôl yr haf prysur trwy wneud tasgau cynnal a chadw cyffredinol o gwmpas y parc.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 626**

**Dydd Mercher 13 Tachwedd 10am – 3pm**

**Rheoli prysgwydd Moel Findeg –** Helpu rhostir yr iseldir i ffynnu trwy dynnu llystyfiant prysglog fel Bedw a Chriafol o'r rhostir.

Cyfarfod ym mhrif gilfan Moel Findeg. Cyfeirnod Grid - **SJ 20564 60795**

**Dydd Mercher 13 Tachwedd 10am – 3pm**

**Chwarel Manor Hill --** Cribinio/casglu/llosgi llystyfiant. Parhau â gwaith i adfer y cynefin hwn sydd o bwysigrwydd mawr i gyflwr ffafriol.

Cyfarfod ym Maes Parcio Llechweddau Prestatyn. Cyfeirnod grid - **SJ 07166 82106**

**Dydd Mawrth 19 Tachwedd 10am – 3pm**

**Plygu Gwrychoedd Coed Llangwyfan –** Helpwch i barhau â'r gwaith gwych sydd eisoes wedi'i wneud i blygu'r gwrych ym maes parcio Coed Llangwyfan.

Cyfarfod ym maes parcio Coed Llangwyfan. Cyfeirnod Grid - **SJ 1390 6684**

**Dydd Mercher 20 Tachwedd 10am – 3pm**

**Cynnal a chadw llwybrau Coed Nercwys –** Helpwch i gynnal a chadw'r llwybrau troed o gwmpas y goedwig trwy osod mwy o gerrig i'w gwella a'u cadw'n agored a hygyrch i bob defnyddiwr.

Cyfarfod ym Maes Parcio Gogleddol Coed Nercwys. Cyfeirnod Grid - **SJ 2173 5778**

**Dydd Mawrth 26 Tachwedd 10am – 3pm**

**Prysgoedio Parc Gwledig Loggerheads –** Helpwch i gynnal coetir y SoDdGA trwy wneud gwaith prysgoedio, sgil draddodiadol a ddefnyddir i ymestyn oes y goeden a hybu twf planhigion y ddaear.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 6266**

**Dydd Mercher 27 Tachwedd 10am – 3pm**

**Tacluso a phrysgoedio Hen Ardd –** Helpwch i gadw'r safle ar ei orau a chadw mynediad i ymwelwyr trwy docio'r coed o gwmpas y mynedfeydd i'r safle a thocio canghennau isaf oddi ar goed o gwmpas y llwybrau bordiau.

Cyfarfod yng nghilfan Hen Ardd, Eryrys. Cyfeirnod grid - **SJ 20489 57804**

**Dydd Mercher 27 Tachwedd 10am – 3pm**

**Chwarel Manor Hill** – Cribinio/casglu/llosgi llystyfiant. Parhau â gwaith i adfer y cynefin hwn sydd o bwysigrwydd mawr i gyflwr ffafriol.

Cyfarfod ym Maes Parcio Llechweddau Prestatyn. Cyfeirnod grid - **SJ 07166 82106**

<u>Rhagfyr</u>

**Dydd Mawrth 3 Rhagfyr 10am – 3pm**

**Clirio Coed wrth Biler Triongli Coed Nercwys –** Helpwch i agor yr olygfa o gwmpas y Piler Triongli yng Nghoed Nercwys trwy glirio'r coed conwydd.

Cyfarfod ym Maes Parcio Gogleddol Coed Nercwys. Cyfeirnod Grid - **SJ 2183 5927**

**Dydd Mercher 4 Rhagfyr 10am – 3pm**

**Coedwig i'r Grugieir, symud conwydd –** Helpwch i gynnal y cynefin rhostir pwysig hwn trwy symud coed conwydd goresgynnol er mwyn cadw'r rhostir ar agor.

Cyfarfod ym maes parcio Coed Moel Famau. Cyfeirnod Grid - **SJ 17131 61072**

**Dydd Mawrth 10 Rhagfyr 10am – 3pm**

**Creu Torchau ym Mharc Gwledig Loggerheads –** Dysgwch sut i greu torch o lystyfiant wedi'i brysgoedio o Barc Gwledig Loggerheads.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 6266**

**Dydd Mercher 11 Rhagfyr 10am – 3pm**

**Symud conwydd ym Mharc Gwledig Moel Famau –** Helpwch i gynnal y cynefin rhostir pwysig hwn trwy symud coed conwydd goresgynnol er mwyn cadw'r rhostir ar agor.

Cyfarfod ym Maes Parcio Pen Barras. Cyfeirnod Grid - **SJ 16135 60577**

**Dydd Mercher 11 Rhagfyr 10am – 3pm**

**Bishopswood, Tacluso Safle –** Byddwn yn clirio dail o'r llwybrau a thacluso'r safle yn gyffredinol (torri gwrychoedd ac ati).

Cyfarfod wrth fynedfa Bishopswood ar ben Bishopswood Road. Cyfeirnod grid - **SJ 06778 81335**

**Dydd Mawrth 17 Rhagfyr 10am – 3pm**

**Prysgoedio Parc Gwledig Loggerheads –** Helpwch i gynnal coetir y SoDdGA trwy wneud gwaith prysgoedio, sgil draddodiadol a ddefnyddir i ymestyn oes y goeden a hybu twf planhigion y ddaear.

Cyfarfod ym mhrif faes parcio Loggerheads. Cyfeirnod Grid - **SJ 1980 6266**

**Dydd Mercher 18 Rhagfyr 10am – 3pm**

**Coelcerth Nadolig Findeg! –** Ymunwch â ni am goelcerth Nadoligaidd, tatws trwy'u crwyn a diodydd.

Cyfarfod ym mhrif gilfan Moel Findeg. Cyfeirnod Grid - **SJ 20564 60795**